**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (CYFNEWIDFA RHAGLAN I GYLCHFAN DIXTON, TREFYNWY, SIR FYNWY) (GWAHARDD TRAFFIG DROS DRO) 2025**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, rhwng Cyfnewidfa Rhaglan a Chylchfan Dixton, Trefynwy, Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn yw:

i. gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o gefnffordd yr A40 a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn.

ii. gwahardd dros dro beicwyr, cerbydau pobl anabl a cherddwyr rhag mynd ar y darnau o gefnffordd yr A40 a bennir ym mharagraffau 1 a 2 o Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Caiff cerddwyr a defnyddwyr cerbydau pobl anabl ystyried defnyddio troetffyrdd dynodedig eraill.

Disgrifir y llwybrau eraill yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 10 Tachwedd 2025. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol yn ysbeidiol dros nos (20:00 o'r gloch tan 06:00 o'r gloch) o 10 Tachwedd 2025 am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**

1. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad ffordd ymadael tua'r dwyrain yr A449 sy'n arwain at yr A40 tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Rhaglan hyd at ei chyffordd â Chylchfan Dixton, Trefynwy, Sir Fynwy.

**THE A40 TRUNK ROAD (RAGLAN INTERCHANGE TO DIXTON ROUNDABOUT, MONMOUTH, MONMOUTHSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF TRAFFIC) ORDER 2025**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road between Raglan Interchange and Dixton Roundabout, Monmouth, Monmouthshire.

The effect of the Order is to:

i. temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the lengths of the A40 trunk road specified in Schedule 1 to this Notice.

ii. prohibit cyclists, pedestrians and invalid carriages from proceeding on the lengths of the A40 trunk road specified in paragraphs 1 and 2 of Schedule 1 to this Notice. Pedestrians and invalid carriage users may wish to consider using alternative designated footways.

The alternative routes are described in Schedule 2 to this Notice.

The Order comes into force on 10 November 2025. The temporary prohibition is expected to operate intermittently overnight (20:00 – 06:00 hours) from 10 November 2025 for a maximum duration of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE 1**

1. The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the A449 eastbound exit leading to the westbound A40 at Raglan Interchange to its junction with Dixton Roundabout, Monmouth, Monmouthshire.

2. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Dixton, Trefynwy hyd at drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

3. Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r B4233 Cinderhill Street, Trefynwy hyd at ei thrwyniad â phrif gerbytffordd tua'r dwyrain yr A40.

Dim ond pan fydd prif gerbytffordd yr A40 ar gau i'r gogledd o Dwneli Gibraltar bydd y ffordd ymuno yma ar gau.

4. Y cilfannau sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd i'r dwyrain o Landdingad ac i'r gogledd-ddwyrain o Lanfihangel Troddi a'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd i'r dwyrain o Landdingad.

## ATODLEN 2

**Y llwybrau eraill pan fo'r darnau o gerbytffordd ym mharagraffau 1 a 2 uchod ar gau.**

Cerbydau nad yw'n cerbydau nwyddau trwm

Dylai traffig sy'n teithio tua'r dwyrain ddilyn yr A449 tua'r de o Gyfnewidfa Rhaglan i Gyffordd 24 yr M4 (Coldra), yr M4 tua'r dwyrain i Gyffordd 23 (Rogiet), yr M48 tua'r dwyrain i Gyffordd 2 (Newhouse), yr A466 tua'r gogledd i Gylchfan Highbeech, Cas-gwent, yr A48 tua'r gogledd-ddwyrain i Highnam a'r A40 tua'r gorllewin i Rosan ar Wy er mwyn ymuno â'r A40 tua'r de-orllewin i Drefynwy neu barhau tua'r gogledd-ddwyrain: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin.

Cerbydau nad yw'n draffig traffordd

Dylai traffig sy'n teithio tua'r dwyrain ddilyn yr A449 tua'r de o Gyfnewidfa Rhaglan i Gyffordd 24 yr M4 (Coldra) a'r A48 tua'r dwyrain i Gylchfan Highbeech, Cas-gwent a dilyn gweddill y llwybr dargyfeirio a ddisgrifir uchod; i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin.

Cerbydau nwyddau trwm

Dylai traffig sy'n teithio tua'r dwyrain ddilyn yr A449 tua'r de o Gyfnewidfa Rhaglan i Gyffordd 24 yr M4 (Coldra), yr M4 tua'r dwyrain i Gyffordd 20, yr M5 tua'r gogledd i Gyffordd 8 a'r M50 tua'r de er mwyn ymuno â'r A40 yn Rhosan ar Wy: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin.

2. The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with Dixton Roundabout, Monmouth to the nosing of the westbound exit slip road at Raglan Interchange.

3. The length of the A40 north-eastbound entry slip road that extends from its junction with the B4233 Cinderhill Street, Monmouth to its nosing with the main A40 eastbound carriageway.

This slip road will only be closed when road closures are in place on the main A40 carriageway north of the Gibraltar Tunnels.

4. The lay-bys adjacent to the eastbound carriageway of the trunk road east of Dingestow and north-east of Mitchel Troy and the lay-by adjacent to the westbound carriageway of the trunk road east of Dingestow.

## SCHEDULE 2

**Alternative routes for closures in paragraphs 1 and 2 above.**

Non-HGV vehicles

Eastbound traffic to follow the southbound A449 from Raglan Interchange to the M4 Junction 24 (Coldra), eastbound M4 to Junction 23 (Rogiet), eastbound M48 to Junction 2 (Newhouse), northbound A466 to Highbeech Roundabout, Chepstow, north-eastbound A48 to Highnam and westbound A40 to Ross-on-Wye to join the south-westbound A40 to Monmouth or continue north-eastbound: vice versa for westbound traffic.

Non-motorway vehicles

Eastbound traffic to follow the southbound A449 from Raglan Interchange to the M4 Junction 24 (Coldra) and eastbound A48 to Highbeech Roundabout, Chepstow and follow the remainder of the diversion route described above: vice versa for westbound traffic.

HGVs

Eastbound traffic to follow the southbound A449 from Raglan Interchange to the M4 Junction 24 (Coldra), eastbound M4 to Junction 20, northbound M5 to Junction 8 and southbound M50 to join the A40 at Ross-on-Wye: vice versa for westbound traffic.

Beicwyr, cerbydau pobl anabl a cherddwyr

O Gylchfan Dixton, dilynwch Dixton Road tua'r de-orllewin, y B4293 drwy ganol tref Trefynwy, yna i mewn i Mitchel Troy Road a pharhau tua'r de-orllewin ar hyd Mitchel Troy Road, Dingestow Road a Groesenon Road i ymuno â'r A40 yn Rhaglan: i'r gwrthwyneb wrth deithio tua'r gogledd-ddwyrain.

Caniateir mynediad lleol rhwng Cylchfan Dixton a'r B4233 i'r gogledd o dwneli Gibraltar, pan fo'n bosibl.

**Y llwybr arall pan fo'r darn o'r ffordd ym mharagraff rhif 3 uchod ar gau.**

Dylai traffig sydd am ymuno a'r A40 tua'r gogledd-ddwyrain o Cinderhill Street fynd ar y B4293 drwy ganol tref Trefynwy i ymuno â'r A40 wrth Gylchfan Dixton.

Cyclists, invalid carriages and pedestrians

From Dixton Roundabout, follow the south-westbound Dixton Road, the B4293 through Monmouth town centre then into Mitchel Troy Road and continue south-westbound via Mitchel Troy Road, Dingestow Road and Groesenon Road to join the A40 at Raglan: vice versa when travelling north-eastbound.

Where possible, local access will be permitted between Dixton Roundabout and the B4233 north of Gibraltar tunnels.

**Alternative route for the closure in paragraph number 3 above.**

Traffic wishing to join the north-eastbound A40 from Cinderhill Street should proceed via the B4293 through Monmouth town centre to join the A40 at Dixton Roundabout.